# Rhaglen Natura 2000 LIFE yng Nghymru

Cylchlythyr 4

Rhagfyr 2014



Mae Rhaglen Natura 2000 LIFE yn llunio cynllun strategol ar gyfer rheoli ac adfer Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) yng Nghymru, ar y tir ac yn y môr, ar gyfer y cyfnod 2014-2020 a thu hwnt. Caiff y prosiect ei roi ar waith gan Cyfoeth Naturiol Cymru, a chaiff gymorth ariannol gan gronfa LIFE+ yr UE.

## Cynlluniau Gwella â Blaenoriaeth: Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Mae tîm Natura 2000 LIFE bron wedi gorffen cydgasglu gwybodaeth oddi wrth Swyddogion Cadwraeth CNC ar y problemau a'r risgiau sy'n effeithio ar safleoedd Natura 2000 yng Nghymru a'r camau gweithredu, wedi'u blaenoriaethu a'u costio, y mae eu hangen i fynd i'r afael â nhw. Mae'r data'n cael eu defnyddio i ddiweddaru Cronfa Ddata Camau Gweithredu CNC (cronfa ddata Safleoedd Arbennig/Canlyniad 21), a fydd wedyn yn ei gwneud yn bosibl cynhyrchu Cynlluniau Gwella â Blaenoriaeth cryno.

Y cam nesaf yw cael adborth a chyfraniadau oddi wrth eraill sydd â gwybodaeth am y safleoedd neu fuddiant ynddyn nhw. Bydd tîm Natura 2000 LIFE yn dechrau cysylltu â staff mewnol CNC ym mis Rhagfyr. Wedyn bydd yn cysylltu â sefydliadau allanol a fydd o bosibl yn arwain cam gweithredu, ar ddiwedd mis Ionawr. Yn gynnar yn y gwanwyn, bydd eraill sydd â diddordeb mwy cyffredinol yn cael eu gwahodd i gyfrannu.

Bydd Cynlluniau Gwella â Blaenoriaeth ar gael fesul fel a phan fyddant yn cael eu cwblhau, a bydd yna gyfnod o dair wythnos i gyflwyno sylwadau. Mae croeso arbennig i'r rheiny sy'n cymryd rhan awgrymu camau gweithredu ychwanegol a darparu unrhyw gostau neu ffynonellau cyllid os ydyn nhw'n hysbys.

Proses ymgysylltu anffurfiol yw hon yn hytrach nag ymgynghoriad statudol, felly ni fydd unrhyw atebion ffurfiol nac adroddiad ar yr ymgynghoriad, ond gwneir pob ymdrech i gyrraedd consensws ar y camau gweithredu y mae eu hangen.

## Cyfryngau Cymdeithasol



Erbyn hyn mae gan Raglen Natura 2000 LIFE dudalen Facebook sy'n agored i bawb. Mae hon yn ffordd wych o gael gwybod am y newyddion a'r datblygiadau diweddaraf. Beth am fynd i www.facebook.com/LIFEN2K a hoffi ein tudalen?

Hefyd mae grŵp trafod ar-lein wedi cael ei lansio i alluogi rhanddeiliaid y prosiect i rannu pynciau, cynnig sylwadau arnyn nhw a'u trafod wrth iddyn nhw ddatblygu. Os hoffech ymuno, anfonwch neges e-bost at life2000@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

## Estyn y Prosiect

Mae Uned LIFE y Comisiwn Ewropeaidd wedi cadarnhau y bydd Rhaglen Natura 2000 LIFE yn cael ei hestyn hyd fis Medi 2015. Roedd i fod i orffen ym mis Rhagfyr 2014 yn wreiddiol, a bydd yr estyniad yn caniatáu i'r Rhaglen gwblhau'r holl ganlyniadau gofynnol, cyflawni proses ymgysylltu gynhwysfawr a diweddaru'r Fframwaith Gweithredu Blaenoriaethau cyn y dyddiad gorffen.

## Fframwaith Gweithredu Blaenoriaethau

Mae'r Fframwaith yn offeryn cynllunio, sy'n ofynnol gan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd, ac sy'n nodi sut mae aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd yn bwriadu rheoli eu safleoedd Natura 2000 i sicrhau bod y nodweddion mewn cyflwr ffafriol.

Bydd y dull yn nodi anghenion yr aelod-wladwriaeth am gyd-gyllid o offerynnau targededig fel LIFE, ac yn hwyluso'r gwaith o integreiddio camau gweithredu Natura 2000 i wahanol raglenni ariannu ehangach yr Undeb Ewropeaidd fel Cronfeydd Strwythurol a Rhaglenni Datblygu Gwledig.

Cynhyrchwyd fersiwn gyntaf Fframwaith y Deyrnas Unedig yn 2013 ac mae ar gael ar: http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/consmanagement/conservationbiodiversity/habitatdirective/paf-for-natura-2000-sites/?lang=cy

Mae'r Uned LIFE wedi gofyn am i elfen Cymru o fersiwn nesaf y Fframwaith gael ei chwblhau erbyn diwedd mis Awst 2015 fel rhan o ganlyniadau Rhaglen Natura 2000 LIFE.

## Cynlluniau Gweithredu Thematig

Mae Cynlluniau Gweithredu'n cael eu llunio ar gyfer pob un o'r materion pennaf sy'n effeithio ar Natura 2000 ledled Cymru. Mae nhw'n canolbwyntio ar gamau gweithredu a gaiff eu cymryd ar lefel ranbarthol neu genedlaethol, neu hyd yn oed rhyngwladol yn hytrach nag ar lefel safleoedd.

Ar 16 Hydref, cynhaliodd tîm Natura 2000 LIFE weithdy morol lle nododd 24 o arbenigwyr CNC gamau gweithredu y mae eu hangen i fynd i'r afael â materion sy'n gysylltiedig â rheoli llifogydd ac erydu arfordirol, pysgodfeydd môr, mynediad a hamdden, rhywogaethau estron goresgynnol, sbwriel a llygredd gwasgaredig.  Mae'r canlyniadau'n ffurfio sail elfen forol ac arfordirol y cynlluniau gweithredu ar gyfer y materion hynny.

Ym mis Chwefror, byddwn ni'n cynnal gweithdy tebyg yn y Canolbarth, a fydd yn canolbwyntio ar afonydd a llynnoedd (gan ymdrin yn bennaf â materion llygredd gwasgaredig a newidiadau o waith dyn i gyflwr y dŵr).

Bydd gweithdai eraill yn canolbwyntio ar y newid yn yr hinsawdd, darnio cynefinoedd, llygredd aer, pori a rheoli da byw, rheoli coetiroedd, materion gwlyptiroedd, rhywogaethau goresgynnol a chlefydau'r tir a dŵr croyw, a materion mynediad.

Mae croeso i bartneriaid mewnol ac allanol ddod i'r gweithdai. Cysylltwch â ni trwy anfon neges e-bost at life2000@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk os hoffech chi neu gydweithiwr i chi ddod i weithdy.

## Gwasanaethau Ecosystemau a ddarperir gan N2K

Mae *Land Use Consultants* wedi llunio rhestr ddrafft o wasanaethau ecosystemau a ddarperir gan Natura 2000. Mae'r rhestr yn galluogi defnyddwyr i ganfod yn rhwydd y buddion sy'n deillio o Natura 2000, ar wahân i gadwraeth bioamrywiaeth, er enghraifft storio a phuro dŵr, bwyd, dal a storio carbon, twristiaeth a hamdden. Bydd y rhestr yn helpu y rheiny sy'n ceisio cyflwyno dadl dros arian ar gyfer gwaith rheoli Natura 2000 o ystod ehangach o grantiau a chynlluniau nad ydyn nhw'n canolbwyntio ar fioamrywiaeth ond sydd ag amcanion cymdeithasol ac economaidd ehangach.

Bydden ni'n croesawu sylwadau ac adborth ar y drafft. Mae ar gael ar ein grŵp trafod ar-lein  (gweler yr erthygl uchod).

## Ymweliad Cenhadaeth

Ym mis Medi, croesawodd tîm Natura 2000 LIFE y swyddogion desg dechnegol ac ariannol o Uned LIFE y Comisiwn Ewropeaidd. Wedi trafodaeth fanwl am gynnydd y prosiect ac adolygiad o'r systemau ariannol, aeth pawb ar ymweliad safle i Ardal Cadwraeth Arbennig Coedydd Aber.



Aeth Hywel Roberts, uwch-reolwr gwarchodfeydd, â nhw ar daith ddiddorol, ac esboniodd y gwahanol broblemau cadwraethol mae'r safle'n eu hwynebu, a'r gwaith y mae angen ei wneud i fynd i'r afael â nhw.

## Ffocws ar Nodweddion

### Coetiroedd Derw Asidaidd Gorllewinol



***Hen goedwigoedd y dderwen ddigoes gydag Ilex a Blechnum yn Ynysoedd Prydain***

⇒ Mae'r cynefin hwn yn ffynnu mewn mannau sydd â phriddoedd asidaidd a glawiad uchel. Yn aml mae'r safleoedd mewn cymoedd â llethrau serth a cheunentydd.

⇒ Mae'n nodedig oherwydd cymunedau toreithiog o fwsoglau, cennau, llysiau'r afu a rhedyn. Mae hefyd yn cynnal fflora llawr asidgar ac ystod amrywiol o infertebratau ac adar.

⇒ Yn digwydd mewn 15 Ardal Cadwraeth Arbennig ar draws Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys Coedydd Nedd a Mellte (370 ha) yn Ne Cymru; Coedydd Aber (340 ha) yn y gogledd (gweler y llun); a Choedydd Derw a Safleoedd Ystlumod Meirion (2800 ha), enghraifft wych ar arfordir y gorllewin.

⇒ Dim ond yng ngorllewin Prydain y ceir Coetir Derw Asidaidd Gorllewinol. Nis ceir ond mewn ychydig iawn o leoedd eraill yn Ewrop. Felly mae gan Gymru gyfrifoldeb pwysig o ran ei gadwraeth.

⇒ Gall y dulliau o reoli'r cynefin gynnwys porfa mewn coetir sy'n cael ei phori, mannau na chânt eu pori, ymyrraeth leiaf a bôn docio neu goedwriaeth arall. Mae'r amrywiaeth hon yn cyfrannu at amrywiaeth fiolegol fawr y cynefin.

⇒ Y pwysau pennaf yw llygredd aer, pori amhriodol, rhywogaethau estron goresgynnol, gwaith rheoli coetir amhriodol a'r newid yn yr hinsawdd.

I gysylltu â Rhaglen Natura 2000 LIFE er mwyn cael mwy o wybodaeth am unrhyw un o'r eitemau yn y cylchlythyr, neu er mwyn ymuno â'n rhestr bostio, anfonwch neges e-bost at life2000@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk.  Neu ewch i'n gwefan:  www.cyfoethnaturiol.cymru/LIFEN2K neu hoffwch ein tudalen Facebook.

**Cefnogir gan LIFE, un o offerynnau ariannol y Gymuned Ewropeaidd: N2K Cymru, LIFE 11 NAT/UK/385**